



Edrych ymlaen...





Eleni, bydda i'n ...



01 Ionawr, 2016

Annwyl ddyddiadur ...

O, dw i wedi blino ond mae hi'n Ionawr 1, felly dyma fy addunedau Blwyddyn Newydd:

Bydda i'n bwyta'n iach. Fydda i ddim yn bwyta creision bob dydd.

Bydda i'n ffrind da – i fy ffrindiau ond hefyd i fy chwaer (!!!).

Bydda i'n safio arian i brynu tabled.

Bydda i'n dechrau hobi newydd – cic focsio. Bydda i'n beicio mwy hefyd.

Bobl bach, dw i wedi blino. Hwyl fawr!

Help

Gerifa	
eleni	this year
dyddiadur	diary
felly	so, therefore
fy	my
yn iach	healthily
bob dydd	every day
prynu	to buy
cic focsio	kickboxing

01 Ionawr, 2016

Annwyl ddyddiadur ...

Dw i'n teimlo'n wych heddiw! Beth ydw i'n mynd i wneud eleni? Wel ...

Bydda i'n dysgu gyrru.

Bydda i'n cael gwaith rhan-amser – mewn caffi neu siop – achos dw i eisiau safio arian i brynu car bach.

Bydda i'n cadw'n heini. Bydda i'n mynd i ddosbarth Bokwa yn y ganolfan hamdden a bydda i'n beicio gyda fy ffrindiau.

Help

Geirfa	
gyrru	driving, to drive
rhan-amser	part-time
canolfan hamdden	leisure centre

01 Ionawr, 2016

Annwyl ddyddiadur,

Mae hi'n Flwyddyn Newydd a dw i'n teimlo'n bositif iawn. Dyma fy addunedau Blwyddyn Newydd:

- Bydda i'n mynd allan mwy – bydda i'n cadw'n heini yn y ganolfan hamdden a bydda i'n beicio yn y wlad gyda fy rheulu ar ddydd Sadwrn.
- Bydda i'n dysgu Ffrangeg – ar y we neu mewn dosbarth nos.
- Bydda i'n peintio'r tŷ.

Dw i'n edrych ymlaen ...

Help

Geirfa

yn y wlad	in the country
fy nheulu	fy family
ar y we	on the internet

i Beth ydy'r geiriau Saesneg?

- cic focsio
- dosbarth nos



Cymru – cyffrous!

Help

Geirfa

pethau	things
digwydd	to happen
Gemau'r Chwe Gwlad	the Six Nations Championship
miloedd	thousands
Dydd Gŵyl Dewi	St David's Day
efallai	perhaps
cenedlaethol	national
rhyngwladol	international
cors	bog
mwldyd	muddy
gŵyl	festival

gyrwyr

drivers

ceir

cars

ffair aeaf

winter fair

stondinau

stands



Edrych ymlaen ...



Bwyta ac edrych ymlaen ...



Dydd Llun-Dydd Gwener: 11.30 a.m. – 11.30 p.m.

Ar agor: Dydd Sadwrn: 11.00 a.m. – 12.30 a.m.

Dydd Sul: 11.30 – 4.00 p.m.; 7.00 p.m. – 11.00 p.m.

CYW IÂR

Cyw iâr melyn a sur

Cyw iâr mewn saws garlleg

Cyw iâr a madarch

PORC

Porc melyn a sur

Porc mewn saws garlleg

Porc Peking

HEFYD:

cig eidion

hwyaden

llysiau

reis

nwdls

cawl nwdls

a llawer mwy

BISGEDI LWCUS AM DDIM

Dewch i mewn, eisteddych a mwynhewch y bwyd bendigedig!

Beth ydych chi'n feddwl o'r bwyd yma?

Mae'n ofnadwy. Mae'n iawn. Mae'n dda. Mae'n flasus iawn. Mae'n anhygoel.

Edrychwch eto – mae'r tŷ bwyta yma'n rhoi bisgedi lwcus – *fortune cookies* – am ddim i'r cwsmeriaid.

Ond beth ydy bisgedi lwcus?

i Bisgedi lwcus



Beth: Bisgedi bach gyda neges tu mewn.

Byddi di'n lwcus wythnos nesaf.

Byddi di'n cael llawer o arian.

Byddi di'n teithio eleni.

Rhaid i ti fwyta bwyd China i fyw'n iach.

Help

Geirfa

melys	sweet
sur	sour
garlleg	garlic
madarch	mushrooms
cig eidion	beef
hwyaden	duck
am ddim	free
neges	message
bob amser	always
pwysig	important
Tsieineaid	Chinese



Dathlu'r Flwyddyn Newydd

Mae hi'n bedwar o'r gloch y prynhawn ar Ragfyr 31 yng Nghymru ac mae Elin yn cael y neges yma oddi wrth ffrind yn Awstralia.



Blwyddyn Newydd Dda

Oddi wrth: craig@auint.org

At: elin@ciwb.org

Helo, bawb. Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Cawson ni amser gwyh yn dathlu'r Flwyddyn Newydd. Roedd y tân gwyllt dros Bont Harbwr Sydney yn anhygoel! Yna, aethon ni i barti gyda ffrindiau. Roedd e'n grêt.

Beth fyddwch chi'n wneud? Sut byddwch chi'n dathlu?

Dw i wedi blino nawr, felly dw i'n mynd i'r gwely.



Cariad

Craig

Sut mae hyn yn bosib?

Mae pobl yn y dwyrain yn dathlu'r Flwyddyn Newydd cyn ni. Ewch i **Dasg 1** i gael mwy o wybodaeth.



Help

Geirfa	
tân gwyllt	fireworks
dwyrain	east
cyntaf	first

olaf

last



Dw i'n gobeithio ...

Rydych chi'n mynd i wrando ar berson ifanc. Dyma ychydig o help i chi os ydych chi eisiau help.

Help

Geirfa	
astudio	to study
technoleg gwybodaeth a chyfathrebu / TGCh	information and communication technology / ICT
addysg gorfforol	physical education
teithio	to travel
gwaith rhan- amser	part-time work
gawn ni weld	we'll see



Dw i'n gobeithio ...

-1:59



Blwyddyn o chwaraeon



Bydd llawer o chwaraeon cyffrous yn 2016.

Pa gystadleuaeth chwaraeon fydd yn digwydd yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2016?

Ateb

Bydd gemau pêl-droed Euro 2016.



Ble fydd y gystadleuaeth?

Ateb

Bydd y gystadleuaeth yn Ffrainc.



Pwy fydd yn ennill?

Pwy?

Beth ydych chi'n feddwl?



Pa gystadleuaeth chwaraeon fydd yn digwydd yn ystod mis Awst 2016?

Ateb

Bydd y Gemau Olympaidd yn Rio de Janeiro.



Pa gystadleuaeth chwaraeon fydd yn digwydd yn ystod mis Medi 2016?

Ateb

Bydd y Gemau Paralympaidd yn ystod mis Medi.



Pa gystadleuaeth chwaraeon fydd yn digwydd yng Nghymru yn ystod yr haf?
Edrychwch ar y sioe sleidiau.



← 'Nôl

Nesaf →

Ble bydd y Gemau yma'n digwydd?

Ateb

Bydd y Gemau'n digwydd yn Llanwrtyd, Powys.

Dyma'r *World Alternative Games*.

Pryd byddan nhw'n digwydd?

Ateb

Yn ystod yr haf.

Maen nhw'n digwydd bob dwy flynedd.

i Gemau 2014

Yn 2014, roedd y cystadlaethau yma yn y *World Alternative Games*:

- marathon dyn yn erbyn ceffyl
- rasio ar feiciau *penny farthing*
- taflu wyau
- cario gwraig
- llusgo gŵr
- rasio i lawr mynydd

Help

Geirfa

cystadleuaeth	competition
yn ystod	during
bob dwy flynedd	every two years
taflu	to throw
gwraig	wife

llusgo

to drag

gŵr

husband

malwod

snails

reslo

to wrestle, wrestling

cors

bog



Llawer o h-WY-I!

Edrychwch ar y sioe sleidiau yma.

Arhoswch ar ôl pob sleid a disgrifiwch beth sy'n digwydd yn y sleid. Ysgrifennwch nodiadau i ddweud beth sy yn y sleidiau.

Os ydych chi eisiau help, ewch i'r Adran **Help**.



Sleid 1

← 'Nôl

Nesaf →

Mae'r sleidiau yn y drefn anghywir.

Edrychwch eto ac edrychwch ar eich nodiadau. Gosodwch y sleidiau yn y drefn gywir, e.e.:

Yn gyntaf, mae ...	sleid 2
Yn ail, mae ...	sleid...
Yn drydydd, mae ...	sleid...
Yn bedwerydd, mae ...	sleid...
Yn bumed, mae ...	sleid...

Beth ydy'r digwyddiad yn y sleidiau? Ewch i'r Adran Atebion i gael y wybodaeth.

I weld mwy, ewch i ...

<https://www.youtube.com/watch?v=hCI-kSK0w0Q>

Help

Geirfa	
aros	to wait, stop
disgrifio	to describe
nodiau	notes
trefn	order
gosod	to place

cyntaf	first
ail	second
trydydd	third
pedwerydd	fourth
pumed	fifth
digwyddiad	event



Gwaith gwyh!

Beth ydych chi eisiau gwneud yn y dyfodol?



Ond beth am y swydd yma? Darllenwch yr hysbyseb yma.

Rydyn ni'n chwilio am:

BLASWR HUFEN IÂ

Y Swydd:

- Byddwch chi'n blasu 60 hufen iâ bob dydd.
- Byddwch chi'n edrych ar yr hufen iâ'n ofalus – ydy o'n edrych yn dda?
- Byddwch chi'n aroglï'r hufen iâ – ydy o'n aroglï'n dda?
- Byddwch chi'n blasu'r hufen iâ – ydy o'n blasu'n dda?
- Byddwch chi'n ysgrifennu adroddiad byr ar yr hufen iâ.
- Fyddwch chi ddim yn bwyta'r hufen iâ. Byddwch chi'n rhoi'r hufen iâ yn eich ceg ... byddwch chi'n blasu'r hufen iâ ... ac yna byddwch chi'n poeri'r hufen iâ allan.



Hefyd:

- Byddwch chi'n helpu i greu blasau newydd.
- Byddwch chi'n gweithio mewn tîm o bobl mewn labordy glân, diogel.
- Byddwch chi'n defnyddio llwy arbennig – llwy aur – a byddwch chi'n gwisgo dillad arbennig i wneud y gwaith.

Beth ydych chi'n feddwl o'r swydd?

Mae'r swydd yn ddiddorol iawn.

Mae'r swydd yn ddiflas iawn.

Mae'r swydd yn wych.

Hufen iâ gwahanol

Pa fath o hufen iâ ydych chi'n hoffi?

Dw i'n hoffi
hufen iâ mefus.

Fy hoff hufen iâ i
ydy hufen iâ
siocled.

Dw i'n mwynhau
hufen iâ coffi - bydda
i'n bwyta hufen iâ
coffi heno.

Beth ydych chi'n feddwl o'r blasau yma?



Hufen iâ gyda brocoli

← 'Nôl

Nesaf →

Help

Geirfa

chwilio am	to look for
blaswr	taster
hysbyseb	advertisement
blasu	to taste
arogli	to smell
adroddiad	report
poeri	to spit
creu	to create
glân	clean
diogel	safe
llwy	spoon
aur	gold

i Beth ydy'r gair Cymraeg?

- professional
- laboratory

Geiriau diddorol!

Geiriau diddorol!

blas, blasau	flavour, flavours
blasus	tasty, delicious
blaswr	taster
blasu	to taste
di-flas	tasteless



Addunedau Blwyddyn Newydd

Y Felin

Llanaber

Ceredigion

05 Ionawr 2016

Annwyl **Ciwb**,

Mae llawer o bobl yn gwneud addunedau Blwyddyn Newydd ym mis Ionawr. Mae rhai pobl ifanc yn dweud, “Dw i’n mynd i ddarllen llyfr newydd bob mis.” Mae rhai’n dweud, “Bydda i’n treulio mwy o amser gyda ffrindiau neu’r teulu.” Mae rhai pobl eisiau cadw’n heini neu fwyta’n iach ac mae rhai pobl yn dweud, “Dw i’n mynd i stopio cweryla gyda fy mrawd a fy chwaer.” Mae rhai pobl yn meddwl, “Dw i eisiau bod yn ffasiynol – dw i’n mynd i brynu dillad ffasiynol eleni.”

Ond mae rhai pobl ifanc yn gwneud addunedau eraill. Mae un arolwg* yn dangos bod 9 allan o 10 person ifanc eisiau helpu pobl eraill. Mae rhai pobl ifanc yn teithio i Affrica neu i Asia i helpu mewn ysgolion neu ysbytai, er enghraifft. Dw i’n rhy ifanc i deithio i Affrica neu i Asia ond dw i’n mynd i helpu pobl eraill eleni. Unrhyw syniadau?

Gyda llaw, dw i wrth fy modd gyda chwaraeon a dw i’n dda am goginio. Dw i’n gallu gweithio’n dda gyda phobl hefyd – yn enwedig plant.

Diolch,

Lyn Evans

* *Arolwg Raleigh International*

Help

Geirfa	
addunedau	resolutions
treulio	to spend (time)
cadw'n heini	to keep fit
cweryla	to quarrel
bod	to be
arolwg	survey
dangos	to show
ysbytai	hospitals
er enghraifft	for example
rhy ifanc	too young
gyda llaw	by the way



Dathlu Santes Dwynwen

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

Help

Geirfa	
fy nghariad i	my girlfriend / boyfriend
canu'r gloch	to ring the bell
rhamantus	romantic
mae hynna'n well	that's better
siomedig	disappointed
llestri	dishes
gorau	best
pys slwtsh	mushy peas
os	if
Tsieineaid	Chinese
trwm	heavy
rhosyn, rhosys	rose, roses
perffaith	perfect

ar gau	closed
ar agor	open
hwyr	late
pwysig	important
seren	star
dod â	to bring
dim byd	nothing

i Pwysig! Pwysig! Pwysig!

Fy nghariad (i)

My girlfriend / boyfriend

Dy gariad (di)

Your girlfriend / boyfriend

Beth sy'n digwydd? Pam mae'r llythrennau (*letters*) yn newid?



Gŵyl y Mochyn



Gŵyl y Mochyn



www.gwylmochyn.cymru

Hafan

Cwestiynau

Lluniau

Sut i gyrraedd

Cysylltu â ni

Ydych chi'n bwyta porc?


Beth am sosejis porc, cig moch, gamwn, ham, porc sur a melys, porc wedi ei rostio neu borc ar y barbeciw?

Wel, os ydych chi'n hoffi porc, dyma'r ŵyl i chi:

La Pourcailhade neu **La Fête du Cochon - Gŵyl y Mochyn.**

Gŵyl y Mochyn

Mae'r ŵyl yn digwydd yn yr Hen Farchnad yn Trie Sur Baïse, Hautes-Pyrénées, Ffrainc, ar yr ail ddydd Sul ym mis Awst bob blwyddyn.



Mae'n lle gwyh i ddod os ydych chi'n hoffi moch – neu'n hoffi **bwyta** moch – achos mae digon o gig blasus yma. Bydd un gystadleuaeth bwyta arbennig iawn lle bydd dynion yn bwyta pwdin gwaed dros 1 metr o hyd! Pwy fydd yn ennill? Y person i fwyta'r mwya.

Ond bydd cystadlaethau doniol eraill hefyd fel cystadleuaeth bwyta sosejis (porc wrth gwrs) a chystadleuaeth gwisg ffansi – gwisgo fel mochyn.

Byddwch chi wrth eich bodd yma a byddwch chi'n chwerthin ... chwerthin ... chwerthin pan fyddwch chi'n gwyllo'r gystadleuaeth o'r enw *Cri de Cochon* (Cri'r mochyn). Bydd pobl yn gwisgo i fyny fel moch ac yna byddan nhw'n gwneud sŵn mochyn. Byddan nhw'n gwichian ac yn rhochian fel mochyn.







Bydd cystadleuaeth i'r moch hefyd – ras y moch bach er enghraifft.

Os ydych chi'n hoffi diwrnod o hwyl ... os ydych chi'n mwynhau cael amser da a chwerthin, dewch i **Ŵyl y Mochyn** – byddwch chi wrth eich bodd yma (ond peidiwch dod os ydych chi'n llysieuidd neu os ydych chi ar ddiet!)

Help

Geirfa	
sur	sour

ail	second
pwdin gwaed	black pudding (lit. blood pudding)
o hyd	in length
ennill	to win
mwya	most
gwichian	to squeal
rhochian	to grunt
moch bach	piglets
er enghraifft	for example
llysieuydd	vegetarian



Bwyd y dyfodol

Mae rhai pobl yn dweud, “Bydd rhaid i ni fwyta bwyd gwahanol yn y dyfodol. Mae mwy o bobl yn byw yn y byd bob blwyddyn ac felly rhaid i ni feddwl am fwyta pethau eraill.”

Ond beth? Dyma rai syniadau:

Pryfed

Mae rhai pobl yn dweud, “Bydd rhaid i ni fwyta pryfed yn y dyfodol. Maen nhw’n flasus ond hefyd maen nhw’n dda i ni.”

Dyma sboncyn y gwair, er enghraifft.



Ydy o’n dda i chi? Edrychwch:

Faint mewn 100 gram:

	Sboncyn y gwair*	Byrger cig eidion*
Protein	tua 14g	16g
Braster	tua 3g	17g
Carbohydradau	tua 2g	5g

** Mae'n dibynnu ar y sboncyn y gwair a'r math o fyrger, wrth gwrs.*

Mae calsiwm a haearn mewn sboncyn y gwair – ac maen nhw'n dda i chi.

Un peth da arall does dim rhaid talu am sboncynnod y gwair. Maen nhw am ddim!

Sut byddwn ni'n bwyta sboncynnod y gwair – a phryfed eraill? Mewn reis wedi ffrio efallai, neu mewn byrger neu efallai byddwn ni'n ffrio'r pryfed gyda garlleg. Hefyd, mae'n bosib byddwn ni'n bwyta'r pryfed mewn caramel neu mewn *meringue*. Mmm – blasus!

Traed anifeiliaid

Ydych chi'n hoffi bwyta cyw iâr?



Ym Mhrydain, rydyn ni'n bwyta dros wyth cant saith deg tri miliwn (873 000 000) o gywion ieir bob blwyddyn ond dydyn ni ddim yn bwyta'r traed!

Mae traed ieir yn dda i chi – mae calsiwm yn y traed, er enghraifft. Mae rhai pobl yn Asia yn bwyta traed ieir heddiw ond efallai, yn y dyfodol, byddwn ni yng Nghymru yn bwyta'r bwyd yma.

Cig o labordy

Ydych chi'n bwyta cig? Porc, cig oen neu gig eidion efallai?



Mae'n bosib byddwn ni'n bwyta cig o labordy yn y dyfodol. Mae'n bosib bydd pobl yn tyfu cig o *stem cells* anifeiliaid yn y dyfodol.

Beth fyddwch chi'n bwyta yn y dyfodol?

Help

Geirfa	
pryfed	insects
sboncyn y gwair	grasshopper
sboncynnod y gwair	grasshoppers
braster	fat
haearn	iron
garlleg	garlic
ieir	hens, chickens
labordy	laboratory
cig oen	lamb
cig eidion	beef